# Rhybudd o Gynigion a Gwelliannau i'w Trafod yn y Dyfodol

## Cynigion heb Ddyddiad Trafod a Gyflwynwyd ar 14 Rhagfyr 2001

**NNDM911 Pauline Jarman (Canol De Cymru);**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan reol sefydlog 29.2, yn cyfarwyddo'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddwyn is-ddeddfwriaeth ddrafft gerbron o dan adran 78(1) Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 ac unrhyw bwerau eraill o'r fath sy'n galluogi'r Cynulliad i ddarparu ar gyfer gwneud taliadau i gwrdd â chostau cyflenwi cyfarpar optegol a ragnodwyd, neu i gyfrannu at gostau o'r fath.

Y nod yw darparu ar gyfer ariannu ail set o gyfarpar optegol ar gyfer rhai pobl benodol hyd at 19 mlwydd oed, fel y gwêl yr optegydd yn dda.